



## Ymchwiliadau'r Heddlu

16 Mai 2022

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 29 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

*Has the Presiding Officer, or other officials within the Senedd Commission including those responsible for standards and the conduct of Members, been informed of any police investigations involving Members of the Senedd?*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.

Mae'r Comisiynydd Safonau'r Senedd yn darparu cyngor annibynnol a diduedd ar unrhyw fater o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau o'r Senedd, ac mae'n ymchwilydd annibynnol ar gyfer cwynion sy'n honni bod Aelodau o'r Senedd wedi torri unrhyw God, Protocol neu benderfyniad gan y Senedd.

Er bod y Senedd yn awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf, nid yw'r Comisiynydd Safonau yn awdurdod cyhoeddus. Felly, nid yw o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu'r wybodaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd gennych ddi-ddordeb yn yr **Adroddiadau Blynyddo!** sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd.

Yn gywir

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

**Buddug Saer**  
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**  
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnlol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnlol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN